Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Gwneud penderfyniadau da:

Canllaw cyfarfodydd pwyllgor ymchwilio a chanlyniadau

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2017.

Cynnwys

1. Rhagymadrodd 5

Rhan a: Y pwyllgor ymchwilio 7

2. Cyfarfodydd pwyllgor ymchwilio 8
   - Ynglŷn â'r pwyllgor ymchwilio 9
   - Beth y gall pwyllgor ymchwilio ei wneud 11
   - Gwneud penderfyniad 14
   - Cofnodi'r penderfyniad 15

Rhan b: Canllaw ar ganlyniad 16

3. Y prawf gwir obaith 17
   - Ystyried yr honiadau ffeithiol (rhan a y prawf) 17
   - Amhariad (rhan b y prawf) 18
   - Beth a olygwn wrth amhariad 1920
   - Ffactorau allweddol i'w hystyried 20
4. Penderfynu ar y canlyniad 21
   - Ffactorau allweddol i'w hystyried 21
   - Budd y cyhoedd 22
   - Ffactorau gwaethygu a lliniaru 22
   - Yr amgylchiadau 24
5. Canlyniadau sydd ar gael 26
   - Gweithdrefnau gweinyddol 29
   - Rhoi rhybudd 29
   - Cytuno ar ymgymeriadau 30

Amdanom ni

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac eiddo fferyllol cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd drwy gynnal safonau ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif rolau'n cynnwys:

- gosod safonau addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i ofidiau nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu er mwyn cyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i gadarnhau eu bod yn cyrraedd ein safonau

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu, hyrwyddo a gwella iechyd a diogelwch pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Rhan bwysig o'n rôl yw delio â'r nifer fechan o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sydd ddim yn cyrraedd y safonau y gall y cyhoedd yn rhesymol eu disgwyl gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

1. Rhagymadrodd

Beth yw'r canllaw hwn

1.1 Mae'r canllaw hwn yn dweud popeth wrthych am y pwyllgor ymchwilio a'i gyfarfodydd. Mae'n nodi sut y gwneir penderfyniadau a'r canlyniadau neu'r gweithredoedd y gall y pwyllgor benderfynu arnynt. Mae hefyd yn rhoi canllaw i'r pwyllgor ymchwilio ei ddefnyddio wrth benderfynu pa ganlyniad sy'n briodol mewn achos penodol ac, yn arbennig, sut i benderfynu pa achosion i'w hatgyfeirio i bwyllgor cymhwyster i ymarfer (FtPC).

1.2 Mae dwy ran i'r canllaw hwn:

Rhan a: Y pwyllgor ymchwilio

Rhan b: Canllaw ar ganlyniad

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

1.3 Mae'r canllaw hwn wedi ei anelu at unrhyw un sy'n gysylltiedig â chyfarfod pwyllgor ymchwilio, sydd â phryderon ynglŷn â chofrestrai, neu y mae pryder yn eu cylch wedi ei atgyfeirio i gyfarfod pwyllgor ymchwilio. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org/ raising-concerns**

1.4 Mae hyn yn cynnwys staff CFfC, aelodau pwyllgor ymchwilio, a chofrestredigion a'u cynrychiolwyr. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y broses cymhwyster i ymarfer, yn cynnwys:

- pobl sy'n ystyried codi pryder gyda'r CFfC ynglŷn â chofrestrai
- cleifion a'u cynrychiolwyr
- sefydliadau amddiffyn
- cyrff rheoleiddio eraill, yn cynnwys yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), a'r
- llysoedd

1.5 Byddwn yn adolygu'r canllaw hwn yn rheolaidd er mwyn:

- rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn deddfwriaeth a chyfraith achos
- gwneud yn siŵr ei fod yn gyson â dogfennau canllaw cysylltiedig eraill
- gwneud yn siŵr ei fod yn parhau'n 'addas at y diben' ac yn hygyrch i bob rhanddeiliad

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

1.6 Mae'r CFfC wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant pan fydd yn gwneud ei waith. Gwerthfawrogwn amrywiaeth ac unigoliaeth yn ein staff, ein gweithwyr cyswllt2, y proffesiwn a'r cyngor. Ein nod yw gwneud yn siŵr bod ein prosesau'n deg, gwrthrychol, tryloyw ac yn rhydd o unrhyw wahaniaethu, a bod ein holl randdeiliaid yn derbyn lefel uchel o wasanaeth. Rydym yn cadw at yr egwyddorion a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac rydym wedi datblygu **cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

1.7 Mae disgwyl i holl aelodau staff y CFfC arddangos ein gwerthoedd bob amser yn ystod y broses cymhwyster i ymarfer. Bydd y CFfC yn gweithredu yn unol â'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) sydd wedi'u hymgorffori mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Rhan a: Y pwyllgor ymchwilio

Mae'r rhan hon yn dweud wrthych am gyfarfodydd pwyllgor ymchwilio, rôl y pwyllgor, ei le yn y broses gwneud penderfyniadau cymhwyster i ymarfer a sut y mae'n dod i benderfyniad ynglŷn â chanlyniad.

2. Cyfarfodydd pwyllgor ymchwilio

2.1 Dim ond un rhan o broses sy'n dechrau pan fydd pryder wedi'i dderbyn a'i ymchwilio gan y CFfC yw cyfarfod pwyllgor ymchwilio[1]. Gall y broses hon ddod i ben ar wahanol gamau:

- wedi'r ymchwiliad
- mewn cyfarfod pwyllgor ymchwilio
- mewn gwrandawiad pwyllgor cymhwyster i ymarfer[2]

Y canllaw a ddefnyddir ar bob cam o'r broses cymhwyster i ymarfer

2.2 Defnyddir canllaw gwneud penderfyniadau ar bob cam er mwyn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Mae'r canllaw wedi'i seilio ar y gyfraith a gweithdrefnau sefydledig. Mae ynddo hefyd ganllawiau penodol ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn cynnwys meini prawf a throthwyon:

- **Defnyddir meini prawf trothwy** ar y cam ymchwilio i benderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio.
- **Mae'r canllaw hwn** yn cwmpasu cyfarfodydd pwyllgor ymchwilio, y broses gwneud penderfyniadau a chanlyniadau cyfarfodydd ymchwilio.

[1] Yr honiadau hynny sydd o fewn awdurdodaeth y CFfC
[2] Atgyfeirir rhai achosion yn uniongyrchol gan y cofrestrydd – Erthygl 52(2)(b) ac Erthygl 54 (1)(a) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

- Mae ***Gwneud penderfyniadau da: Canllaw gwrandawiadau cymhwyster i ymarfer a sancsiynau*** yn cwmpasu gwrandawiadau cymhwyser i ymarfer a'r penderfyniadau a wneir gan bwyllgor cymhwyster (FtPC) i ymarfer yn ystod gwrandawiad.

2.3 Dylai'r pwyllgor ymchwilio fod yn ymwybodol o'r holl ganllawiau a restrir uchod.

2.4 Rhaid iddo roi ystyriaeth i'r canllaw hwn wrth wneud penderfyniad ynglŷn â chanlyniad[3]. Ni fwriedir i'r canllaw hwn ymyrryd â disgresiwn gwneud penderfyniadau y pwyllgor ond dylai helpu pwyllgor ymchwilio i benderfynu pa ganlyniad y mae'n ei ystyried sy'n briodol mewn achos unigol. Os bydd y pwyllgor yn gwyro oddi wrth y canllaw hwn dylai nodi hynny'n glir yn ei resymau.

Ynglŷn â'r pwyllgor ymchwilio

2.5 Unwaith y bydd ymchwiliad wedi digwydd, ac os yw honiad yn bodloni'r meini prawf trothwy, caiff fel arfer ei atgyfeirio i gyfarfod pwyllgor ymchwilio. Mae'r pwyllgor ymchwilio yn gweithredu, ac yn gwneud penderfyniadau, yn annibynnol ar y CFfC. Mae'n atebol[4] am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud a rhaid iddo roi rhesymau dros ei benderfyniadau. Bydd y cofrestrydd yn derbyn, ymchwilio ac yn atgyfeirio'r achos at y pwyllgor ymchwilio. Y cofrestrydd yw cyflogai uchaf y CFfC ac mae ganddo gyfrifoldeb ar ran y CFfC am ymchwilio achosion.

2.6 Mae'r pwyllgor ymchwilio yn cyfarfod i ystyried honiadau a atgyfeirir iddo. Bydd yn cyfarfod yn breifat[5] ac mae'r holl bapurau a thrafodaethau'n parhau'n gyfrinachol. Golyga hyn nad yw'r person sy'n codi'r pryder, y cofrestrai na staff ymchwiliadau CFfC yn mynychu'r cyfarfodydd.

2.7 Nid yw'r pwyllgor ymchwilio yn clywed tystiolaeth lafar[6] gan gofrestredigion na thystion. Fodd bynnag, gwahoddir y cofrestrai dan sylw i ddarparu 'sylwadau ysgrifenedig' ynglŷn â'r honiad, ac ar unrhyw argymhellion a wneir gan y cofrestrydd ar gyfer delio â'r achos[7].

2.8 Bydd cyfarfod pwyllgor ymchwilio fel arfer yn cynnwys pedwar o bobl (cadeirydd neu ddirprwy gadeirydd, dau aelod cofrestredig ac aelod lleyg). Rhaid bod o leiaf dri aelod[8] o'r pwyllgor mewn cyfarfod pwyllgor ymchwilio cyn y gall wneud penderfyniad, gan gynnwys o leiaf un gweithiwr proffesiynol ac un person lleyg.

[3] Rheol 9(3)(2) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

[4] Gellir herio penderfyniadau pwyllgor ymchwilio drwy adolygiad barnwrol - er enghraifft, os yw'r pwyllgor ymchwilio wedi methu â defnyddio'r profion priodol ar gyfer ei benderfyniad neu wedi rhoi rhesymau annigonol i egluro ei benderfyniad. Craffir ar benderfyniadau o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA).

[5] Rheol 9(1) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

[6] Rheol 9(2) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

[7] Rheol 7(2)(f) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

[8] Rheol 18 – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010

2.9 Dylai'r cadeirydd, cofrestrai ac aelod lleyg y pwyllgor weithio o fewn y fframwaith a nodir yn y canllaw hwn. Mae disgwyl iddynt ymddwyn mewn modd teg a chytbwys wrth wneud penderfyniad. Maent yr un mor gyfrifol â'i gilydd am y broses gwneud penderfyniadau ac am gynnwys penderfyniad (ffurfiol, ysgrifenedig) y pwyllgor ymchwilio.

2.10 Efallai y bydd pobl eraill yn bresennol yn y cyfarfod, yn cynnwys ysgrifennydd y pwyllgor ymchwilio, cynghorydd cyfreithiol a chynghorydd clinigol. Mewn rhai achosion gall y pwyllgor ofyn am gymorth gan gynghorydd arbenigol[9]. Rhaid i bawb sy'n mynychu barchu natur gyfrinachol a sensitif y wybodaeth a dderbynnir. **Gallwch weld aelodau presennol y pwyllgor ar ein gwefan.**

Rôl ysgrifennydd y pwyllgor ymchwilio

2.11 Ysgrifennydd y pwyllgor ymchwilio[10] sy'n gyfrifol am drefniadau gweinyddol y pwyllgor[11]. Mae'r ysgrifennydd yn chwarae rôl bwysig yng ngwaith y pwyllgor ac yn helpu i wneud yn siŵr y caiff y canllaw hwn ei ddilyn. Bydd yr ysgrifennydd yn mynychu pob cyfarfod pwyllgor ymchwilio. Nid yw'n cymryd rhan yn y gwaith o wneud penderfyniad, nac mewn trafodaethau, ac nid oes hawl ganddo ef neu hi i bleidleisio[12]. Rhaid i'r ysgrifennydd gadw cofnod, neu wneud yn siŵr bod cofnod yn cael ei gadw, o'r holl benderfyniadau a wneir gan y pwyllgor ymchwilio a'r rhesymau drostynt[13].

2.12 Rhaid i ysgrifennydd pwyllgor ymchwilio, mewn ymgynghoriad â'r cadeirydd, nodi unrhyw gynghorwyr cyfreithiol, clinigol ac arbenigol a fydd yn mynychu cyfarfod penodol[14].

Rôl y cynghorydd clinigol

2.13 Rôl y cynghorydd clinigol[15] yw cynghori'r pwyllgor ymchwilio ar unrhyw faterion o fewn ei faes arbenigedd meddygol, ac ymyrryd os oes posibilrwydd y gwneir camgymeriad. Dylai'r cynghorydd clinigol ateb cwestiynau a allai fod gan y pwyllgor am gyflyrau meddygol neu faterion cysylltiedig ag iechyd sy'n berthnasol i'r achos.

2.14 Ni ddylai'r cynghorydd clinigol wneud diagnosis, dadlau diagnosis ymarferydd meddygol sydd wedi archwilio'r cofrestrai, na rhoi barn am gymhwyster y cofrestrai i ymarfer[16]. Dylai'r cynghorydd clinigol egluro dim ond y dystiolaeth feddygol sydd ar gael - ateb cwestiynau meddygol penodol a rhoi cyngor ynglŷn â natur, canlyniadau a datblygiad naturiol y cyflwr

[9] Rheol 23 – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[10] Mae ysgrifennydd y pwyllgor ymchwilio yn gyflogai CFfC
[11] Rheol 17(4) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[12] Rheol 17(7) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[13] Rheol 17(6) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[14] Rheol 17(5) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[15] Rheol 22 – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[16] *Sandra Watson v Cyngor Meddygol Cyffredinol* [2005]EWHC 1896 (Gweinyddol)

meddygol a ddatgelir gan yr adroddiadau arbenigol neu gofnodion meddygol. Ni ddylent gymryd rhan yng ngwaith gwneud penderfyniad y pwyllgor ymchwilio.

2.15 Rhaid i gynghorydd clinigol fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r pwyllgor ymchwilio os yw'n bwriadu ystyried iechyd y cofrestrai sy'n destun yr achos. Gall y cynghorydd hefyd fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod pwyllgor ymchwilio arall os bydd materion cysylltiedig ag iechyd i gael eu hystyried.

2.16 Os nad yw pwyllgor ymchwilio yn derbyn cyngor a roddir gan y cynghorydd clinigol, rhaid i gadeirydd y pwyllgor roi rhesymau am hyn a rhaid cofnodi'r rhain yn ffurfiol[17].

Rôl y cynghorydd cyfreithiol

2.17 Rôl y cynghorydd cyfreithiol[18] yw cynghori'r pwyllgor ymchwilio ynglŷn â'r gyfraith, ac ymyrryd os oes posibilrwydd y gwneir camgymeriad o ran y gyfraith. Rhaid iddo ef neu hi hefyd wneud yn siŵr bod cyfarfodydd pwyllgor ymchwilio - a'r gweithdrefnau a ddilynir ganddynt - yn deg, cywir ac yn unol â'r fframwaith cyfreithiol. Rhaid i'r cynghorydd cyfreithiol ddweud wrth y pwyllgor pan efallai nad felly y mae hi.

2.18 Gall cynghorydd cyfreithiol fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod os bydd ysgrifennydd y pwyllgor ymchwilio yn gofyn am hyn, ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd. Fodd bynnag, oherwydd rôl bwysig y cynghorydd cyfreithiol, credwn y dylai cynghorydd cyfreithiol fod yn bresennol ym mhob cyfarfod pwyllgor ymchwilio gan y bydd hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau da.

2.19 Ni ddylai'r cynghorydd cyfreithiol gymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor ymchwilio. Ar gais y cadeirydd, gall gynghori'r pwyllgor ymchwilio ynglŷn â strwythur a fformat y rhesymau am benderfyniad gan y pwyllgor ymchwilio hwnnw.

2.20 Os nad fydd pwyllgor ymchwilio yn derbyn cyngor a roddir gan y cynghorydd cyfreithiol, rhaid i gadeirydd y pwyllgor roi rhesymau dros hyn, a rhaid cofnodi'r rhain yn ffurfiol[19].

Beth y gall pwyllgor ymchwilio ei wneud

2.21 Rhaid i'r pwyllgor ymchwilio wneud penderfyniadau ynglŷn â honiadau a gaiff eu hatgyfeirio iddo, a rhaid iddo benderfynu a ddylent gael eu hystyried gan FtPC[20]. Mae ystod o ganlyniadau y gall pwyllgor ymchwilio benderfynu arnynt, yn dibynnu ar ei asesiad o'r dystiolaeth. Oni bai bod y cofrestrai wedi gofyn i'r achos gael ei atgyfeirio i FtPC[21], mae'r canlyniadau sydd ar gael yn cynnwys:

[17] Rheol 26 – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[18] Rheol 21 – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[19] Rheol 26 – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010
[20] Erthygl 53 – Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[21] Erthygl 53(3) – Gorchymyn Fferylliaeth 2010

- dim gweithredu
- rhoi cyngor i'r cofrestrai (neu i berson neu gorff arall sy'n rhan o'r honiadau)
- rhoi rhybudd
- cytuno ar ymgymeriadau gyda'r cofrestrai, os bydd y cofrestrai'n cyfaddef yr amherir ar ei gymhwyster i ymarfer
- atgyfeirio i FtPC

2.22 Os bydd y pwyllgor ymchwilio'n penderfynu atgyfeirio honiad i FtPC a'i fod o'r farn y dylid cyflwyno cyfarwyddiadau rheoli achos[22], neu y dylid gwneud gorchymyn dros dro[23], rhaid iddo ddweud wrth yr FtPC. Gellir ond gosod gorchymyn dros dro os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd neu os yw fel arall o fudd i'r cyhoedd, neu o fudd i'r cofrestrai.

2.23 Gall y pwyllgor ymchwilio hefyd:

- ohirio ei gyfarfod hyd nes y bydd ganddo fwy o wybodaeth
- gofyn am ymchwiliad pellach
- ei gwneud hi'n ofynnol i gofrestrai gael archwiliad meddygol
- ei gwneud yn ofynnol i'r aelod cofrestredig sefyll asesiad iaith[24]
- cael cyngor gan gynghorydd cyfreithiol, clinigol neu arbenigol arall
- ystyried dirymiad (canslo'r atgyfeiriad i FtPC)
- dweud wrth y cofrestrydd y dylai'r CFfC ystyried dwyn achos cyfreithiol yn erbyn cofrestrai

Gohirio'r cyfarfod a gofyn am ymchwiliad pellach

2.24 Gall pwyllgor ymchwilio ohirio cyfarfod mewn amgylchiadau penodol. Gall ohirio'r cyfarfod hyd nes bod y cofrestrai wedi cael archwiliad meddygol a bod adroddiad ar hyn wedi ei baratoi. Gall hefyd, os bydd angen rhagor o wybodaeth arno, ohirio hyd nes y bydd yn derbyn y wybodaeth y mae wedi gofyn amdani, neu hyd nes ei fod yn derbyn unrhyw sylwadau y mae wedi gofyn amdanynt gan y person a gododd y gŵyn.

2.25 Gall hefyd ofyn i gynnal ymchwiliadau pellach. Os oes angen ymchwiliadau pellach[25], dylai'r pwyllgor ymchwilio ohirio'r achos i ganiatáu i'r rhain gael eu cynnal. Dylai ei gwneud hi'n glir

[22] Mae cyfarwyddiadau rheoli achos yn rhoi rhwymedigaethau ar bob parti sy'n gysylltiedig parthed datgelu gwybodaeth a thystiolaeth

[23] Mae Rheol 9(3)(b)(i) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010 yn rhoi cyfyngiadau ar gofrestriad tra bod honiadau ynglŷn â'u hymddygiad yn cael eu datrys

[24] Rheol 9 (5A) (a) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Pwyllgorau Statudol a'u Cynghorwyr) Gorchymyn y Cyngor 2010

[25] Mae Rheol 9(3)(b)(i) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010 yn rhoi cyfyngiadau ar gofrestriad tra bod honiadau ynglŷn â'u hymddygiad yn cael eu datrys

beth yw ei resymau dros ofyn am ymchwiliad pellach, a'r materion penodol sydd angen eu hymchwilio ymhellach.

2.26 Os bydd y cofrestrydd yn penderfynu nad yw'r ymchwiliad pellach y gwnaed cais amdano yn angenrheidiol, neu na ddylid ei gynnal, caiff yr honiadau eu dychwelyd i'r pwyllgor ymchwilio. Bydd hyn yn cynnwys esboniad clir o benderfyniad y cofrestrydd.

Gofyniad am archwiliad meddygol

2.27 Pan fydd yn delio â honiad iechyd, gall y pwyllgor ymchwilio[26]:

- ofyn i'r cofrestrai gytuno i gael ei archwilio'n feddygol gan ymarferydd meddygol cofrestredig a ddewisir gan y cyngor, ac
- os bydd yn derbyn gwybodaeth bod y cofrestrai wedi gwrthod cydymffurfio'n llawn ag archwiliad meddygol, atgyfeirio'r gwrthodiad hwnnw i'r FtPC fel honiad ar wahân o gamymddwyn

Anghenraid i gael asesiad iaith

2.28 Mewn perthynas â chyhuddiad yn ymwneud â gwybodaeth o'r iaith Saesneg mae gan y PY rym i ofyn i'r aelod cofrestredig sefyll asesiad iaith[27]. Gall ei gwneud yn ofynnol i'r aelod cofrestredig:

- sefyll arholiad neu asesiad ar eu gwybodaeth o'r iaith Saesneg, a
- rhoi tystiolaeth o ganlyniad yr arholiad neu asesiad hwnnw i'r cofrestrydd

2.29 Efallai y bydd y PY yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod cofrestredig gael asesiad ar ei iaith os yw o'r farn nad oes ganddo neu ganddi'r wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol[28]. Os yw'r PY yn ystyried achosion o'r math hwn, rhaid iddo ystyried y canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi[29].

2.30 Os yw'r PY yn derbyn gwybodaeth bod y person dan sylw wedi methu â chydymffurfio gyda'r cais am asesiad, gall[30]:

- gyfeirio'r cyhuddiad 'gwybodaeth o'r iaith Saesneg' i'r pwyllgor addasrwydd ymarfer, ac ymdrin â'r methiant i gydymffurfio gyda'r cyfarwyddyd fel cyhuddiad

[26] Rheol 9(5) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010
[27] Rheol 9(5A)(a) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010
[28] Erthygl 3 (1) – Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[29] **www.pharmacyregulation.org/registration/new-language-and-revised-indemnity-requirements**
[30] Rheol 9 (5A) (b) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

o gamymddwyn ar wahân a chyfeirio'r cyhuddiad at y pwyllgor, neu

- penderfynu peidio â chyfeirio'r cyhuddiad 'gwybodaeth o'r iaith Saesneg' at y pwyllgor addasrwydd ymarfer, ond ymdrin â'r methiant i gydymffurfio gyda'r cyfarwyddyd fel cyhuddiad o gamymddwyn ar wahân a chyfeirio'r cyhuddiad at y pwyllgor

Ystyried diddymu

2.31 Pan fydd honiad wedi ei atgyfeirio i FtPC, ond nad oes gwrandawiad wedi ei gynnal hyd yma, gall cynrychiolydd y cyngor yn yr achos ystyried na ddylid cynnal y gwrandawiad. Os felly, rhaid iddo roi ei farn i'r pwyllgor ymchwilio a'r rhesymau dros y farn[31].

2.32 Rhaid i gynrychiolydd y cyngor ystyried na ddylid cynnal y gwrandawiad mwyach ac y dylai'r honiadau gael eu hailystyried gan y pwyllgor ymchwilio. Gall hyn gael ei seilio, er enghraifft, ar:

- dystiolaeth sydd ar gael
- gwybodaeth arall sydd gan y cyngor, neu
- wybodaeth newydd am yr achos sydd wedi dod i'r amlwg wedi i'r achos gael ei atgyfeirio i FtPC

2.33 Mae dirymu'n golygu bod atgyfeiriad yr achos i FtPC yn cael ei ganslo ('diddymu'). Mae hyn yn brin, a bydd cynrychiolydd y cyngor dim ond yn rhoi ei farn na ddylid cynnal y gwrandawiad ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus.

2.34 Rhaid i'r pwyllgor ymchwilio ystyried a ddylid diddymu'r atgyfeiriad i'r FtPC. Er mwyn gwneud hynny rhaid iddo ystyried y prawf 'gwir obaith' wrth ddod i benderfyniad (gweler rhan b. i gael gwybod mwy am yr hyn a olygwn gydag amhariad a'r prawf gwir obaith). Ni ddylai'r pwyllgor ddiddymu atgyfeiriad heb yn gyntaf roi cyfle rhesymol i'r person sy'n codi'r pryder i wneud sylw ynglŷn â'r diddymiad arfaethedig.

2.35 Gall y pwyllgor ymchwilio benderfynu diddymu'r cyfan, neu ran, o'r achos yn erbyn y cofrestrai. Neu gall y pwyllgor ymchwilio benderfynu na ddylai'r gwrandawiad fynd rhagddo a bod cyngor, rhybudd, ymgymeriadau neu dim gweithredu pellach yn ganlyniad mwy priodol. Rhaid iddo roi rhesymau dros ei benderfyniad.

Dwyn erlyniad

2.36 Os cred y pwyllgor ymchwilio y dylai'r CFfC ystyried defnyddio ei bwerau[32] i ddwyn erlyniad troseddol, rhaid iddo ddweud wrth y cofrestrydd a rhoi rhesymau dros ei

[31] Rheol 38 - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010
[32] Erthygl 53 (4) – Gorchymyn Fferylliaeth 2010

benderfyniad.

Gwneud penderfyniad

2.37 Mae gwneud yn siŵr bod pwyllgor ymchwilio yn penderfynu ar y canlyniad priodol yn bwysig ar gyfer diogelwch cleifion a hefyd hyder y cyhoedd yn y proffesiwn fferylliaeth yn gyffredinol a hefyd mewn perthynas â gweithwyr fferyllol proffesiynol unigol. Gall y pwyllgor ymchwilio ystyried honiadau sy'n ymwneud â bywyd personol neu fywyd proffesiynol y cofrestrai - gan y gall pryderon am y naill neu'r llall niweidio'r ymddiriedaeth a hyder mewn fferylliaeth neu beri risg i gleifion. Nid yw'r pwyllgor ymchwilio wedi ei gyfyngu i ystyried dim ond yr honiadau a argymhellir gan y cofrestrydd a rhaid iddo ystyried yr achos cyfan.

2.38 Cyn penderfynu ar y canlyniad priodol rhaid i'r pwyllgor ymchwilio ystyried y dystiolaeth, y prawf 'gwir obaith' ac a ddylai'r honiad gael ei ystyried gan FtPC. Bydd y pwyllgor ymchwilio yn gwneud y canlynol[33]:

- ystyried y dystiolaeth a phenderfynu a oes digon o wybodaeth i wneud penderfyniad
- penderfynu a oes gwir obaith o brofi ffeithiau honiad
- penderfynu a fyddai'r ffeithiau, pe byddent yn cael eu profi, yn golygu bod gwir obaith y bydd yr FtPC yn dod i gasgliad yr amharwyd ar gymhwyster y cofrestrai i ymarfer
- penderfynu a ddylai'r mater gael ei ystyried gan FtPC neu a fyddai canlyniad arall yn fwy priodol



[33] Erthygl 53 (1) – Gorchymyn Fferylliaeth 2010

2.39 Wrth wneud ei benderfyniad dylai'r pwyllgor ymchwilio gydnabod ei fod yn cynnal ymarferiad, cyfyngedig, seiliedig ar bapur ar y dystiolaeth sydd ger ei fron, ac ni ddylai ddod i gasgliadau ffeithiol. Rhaid i'r pwyllgor benderfynu a ddylai FtPC ystyried unrhyw honiadau - ac os felly pa honiadau.

2.40 Rhaid i'r pwyllgor ymchwilio nodi'n glir pa honiadau, os o gwbl, a gefnogir gan dystiolaeth a pha rai, os o gwbl, na chânt eu cefnogi. Dylai ddweud yn glir pa gasgliadau y mae wedi dod iddynt, pam y mae wedi dod i'r casgliadau hyn a sut mae wedi dod iddynt.

2.41 Gall hefyd benderfynu na ddylai honiad gael ei atgyfeirio i FtPC. Os na atgyfeirir honiad, gall y pwyllgor ymchwilio benderfynu ar nifer o ganlyniadau (gweler rhan b. am fanylion o'r canlyniadau sydd ar gael).

Cofnodi'r penderfyniad

2.42 Rhaid i'r pwyllgor ymchwilio roi datganiad ffurfiol yn nodi ei benderfyniad a'i resymau dros y penderfyniad hwnnw. Dylai'r datganiad ffurfiol fod yn glir a chaniatáu i unrhyw un ddeall y penderfyniad yn hawdd. Rhaid i'r rhesymau roi dealltwriaeth glir i'r darllenwr o'r canlynol:

- y ffactorau a ystyriwyd
- y penderfyniad a wnaed
- pam y gwnaethpwyd y penderfyniad
- sut y daethpwyd i'r penderfyniad (yn cynnwys y prawf 'gwir obaith' ac a ddylai gael ei ystyried)
- pam y gwrthodwyd unrhyw gyngor neu ddeunydd, os digwyddodd hyn
- pam y dewisodd y pwyllgor ymchwilio beidio â dilyn argymhelliad y cofrestrydd, os digwyddodd hyn, a
- pham y dewisodd beidio â dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd, os digwyddodd hyn

2.43 Nid oes yn rhaid i'r rhesymau fod yn fanwl na'n hir, ond dylent ddweud yn fras wrth bawb sy'n gysylltiedig pam y daeth y pwyllgor ymchwilio i'w benderfyniad[34]. Nid yw ailadrodd y prawf gwir obaith neu ddatgan y casgliad yn cyfateb i roi rhesymau. Wrth roi cyngor, dylai'r pwyllgor ddweud yn glir beth yw'r cyngor hwnnw. Rhennir penderfyniadau gyda'r person sy'n codi'r gŵyn, y cofrestrai ac, mewn rhai achosion, cyflogwr y cofrestrai.

2.44 Os yw'r pwyllgor ymchwilio yn argymell y dylai'r cyngor ystyried honiadau pellach, yna dylai'r pwyllgor egluro beth yw'r honiadau hynny a'r rhesymau dros eu hystyried.

[34] Lutton v GDC [2011]CSOH 96

Rhan b: Canllaw ar ganlyniad

Mae'r rhan hon yn rhoi canllawiau ar y dull y dylai'r pwyllgor ymchwilio ei ddefnyddio wrth benderfynu a ddylid atgyfeirio mater i FtPC. Yn benodol, mae'n rhoi canllawiau ar ddefnydd y prawf gwir obaith ac a ddylai'r pwyllgor ymchwilio atgyfeirio honiad i FtPC.

Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar y canlyniadau posibl y gall y pwyllgor ymchwilio benderfynu arnynt, beth maent yn ei olygu a beth ddylai'r pwyllgor ei ystyried cyn penderfynu ar ganlyniad penodol.

Rhaid i aelodau'r pwyllgor ddefnyddio eu barn eu hunain wrth ystyried y wybodaeth sydd ar gael a phenderfynu ar y canlyniad priodol a chymesur. Mae 'cymesur' yn golygu na ddylai canlyniad fod yn fwy difrifol nag sydd angen iddo fod er mwyn cyflawni ei nodau[35].

[35] Chaudhury v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2002] UKPC 41

3. Y prawf gwir obaith

3.1 Wrth benderfynu ar y canlyniad dylai'r pwyllgor ymchwilio benderfynu yn gyntaf a yw'n ystyried bod gwir obaith i honiad gael ei brofi gerbron FtPC. Hwn yw'r prawf 'gwir obaith'.

3.2 Mae dwy ran i'r prawf gwir obaith, ac mae'n berthnasol i'r:

a: honiadau ffeithiol eu hunain, a'r

b: cwestiwn ynglŷn ag a fyddai'r ffeithiau, pe byddent yn cael eu profi, yn dangos yr amharwyd ar gymhwyster y cofrestrai i ymarfer

3.3 Mae 'gwir obaith' yn golygu bod yn rhaid i rywbeth fod yn bosibilrwydd dilys, nid un sydd ond yn obaith gwan neu'n anwadal[36]. Dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried yr holl wybodaeth sydd ger ei fron. Mae ganddo'r hawl i asesu perthnasedd a phwysau'r dystiolaeth, ond ni ddylai geisio datrys unrhyw wrthdaro - neu anghydfodau - sylweddol ynglŷn â'r dystiolaeth. Mater i FtPC yw hyn.

3.4 Ni ddylai'r pwyllgor ymchwilio geisio ystyried beth y bydd, neu y gallai, yr FtPC ei benderfynu. Dylai'r pwyllgor ond penderfynu a oes gwir obaith neu beidio y bydd mater yn cael ei brofi gerbron FtPC. Dylai ystyried a oes gwir obaith y bydd yr FtPC yn dod i'r casgliad bod cymhwyster y cofrestrai i ymarfer wedi ei amharu ar hyn o bryd

3.5 Cyfrifoldeb FtPC yw penderfynu a gaiff unrhyw ffeithiau eu profi, ac, os felly, a amherir ar y cofrestrai ar hyn o bryd.

Ystyried yr honiadau ffeithiol (rhan a y prawf)

3.6 Yn gyntaf mae'n rhad i'r pwyllgor ymchwilio asesu'r dystiolaeth sydd ger ei fron a phenderfynu a oes gwir obaith y bydd y ffeithiau a honnir yn cael eu profi. Dim ond wedyn y gall ystyried ail ran y prawf. Wrth ystyried y prawf gwir obaith, dylai'r pwyllgor ymchwilio gadw mewn cof mai'r cyngor sydd i brofi, ar sail tebygolrwydd, wirionedd y ffeithiau a honnir mewn gwrandawiad FtPC.

3.7 Gall achos gynnwys mwy nac un honiad. Os felly, dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried rhan gyntaf y prawf gwir obaith ar gyfer pob honiad ar wahân.

3.8 Os yw'r Pwyllgor Ymchwilio'n penderfynu bod gwir obaith y bydd y ffeithiau a honnir yn cael eu profi, yna dylai fynd yn ei flaen i ystyried rhan b y prawf.

[36] Swain v Hillman (2001) 1 All ER 91

Amhariad (rhan b y prawf)

3.9 Ail ran y prawf yw y dylai'r pwyllgor ymchwilio ofyn i'w hun a oes gwir obaith y bydd yr FtPC yn dod i gasgliad yr amharwyd ar gymhwyster y cofrestrai i ymarfer[37]. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r pwyllgor benderfynu a yw cymhwyster y cofrestrai i ymarfer wedi ei amharu ar hyn o bryd, gan mai penderfyniad i FtPC yw hyn.

3.10 Wrth ystyried amhariad bydd y Pwyllgor Addasrywdd Ymarfer yn edrych ar amhariad ar hyn o bryd, nid a amharwyd ar y cofrestrai ar adeg y digwyddiad. Fodd bynnag, er mwyn penderfynu ar gymhwyster cofrestrai i ymarfer bydd yn rhaid i'r FtPC roi ystyriaeth i'r modd y mae'r person dan sylw wedi gweithredu neu fethu â gweithredu yn y gorffennol.

3.11 Os daw'r pwyllgor ymchwilio i'r casgliad nad oes gwir obaith bod y FtPC yn penderfynu yr amharwyd ar gymhwyster y cofrestrai i ymarfer ar hyn o bryd, ond yn penderfynu bod gwir obaith o brofi'r ffeithiau a honnir, yna dylai ystyried a yw cyngor neu rybudd yn briodol yn amgylchiadau'r achos.

[37] Rheol 9 (7) (a) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

Beth a olygwn wrth amhariad

Mae gweithiwr fferyllol proffesiynol yn 'gymwys i ymarfer' pan fo ganddo'r sgiliau, gwybodaeth, cymeriad, ymddygiad a'r iechyd sydd ei angen i weithio'n ddiogel ac effeithiol fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol. Yn ymarferol, golyga hyn gynnal safonau cymhwysedd priodol, dangos cymeriad da, a hefyd cadw at egwyddorion arfer da a nodir yn ein gwahanol safonau, canllawiau a chyngor.

Gellir amharu ar gymhwyster i ymarfer oherwydd nifer o resymau, yn cynnwys camymddwyn, diffyg cymhwysedd, afiechyd neu euogfarn am drosedd* (nid yw hon yn rhestr gyflawn).

Gall nifer o bethau amharu ar addasrwydd ymarfer, yn cynnwys camymddwyn, diffyg galluedd, peidio â meddu ar wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg, afiechyd neu gollfarn am drosedd[38] (nid yw hon yn rhestr gyflawn).

Gall y pwyllgor ystyried cyhuddiadau mewn bywyd proffesiynol neu bersonol. Rhaid iddo benderfynu a oes diffyg ar addasrwydd ymarfer yr aelod cofrestredig ar hyn o bryd, nid a oedd diffyg ar yr adeg y digwyddodd y digwyddiad. Bydd y pwyllgor yn ystyried amcanion cyffredinol y CFfC wrth benderfynu a oes diffyg yn addasrwydd ymarfer y gweithiwr fferyllol proffesiynol[39]. Rhaid i'r pwyllgor hefyd ystyried ffactorau perthnasol, sy'n cynnwys a yw'r ymddygiad yn[40]:

- yn peri risg gwirioneddol neu bosibl i gleifion neu'r cyhoedd
- wedi dwyn anfri, neu y gallai ddwyn anfri, ar y proffesiwn fferylliaeth
- wedi torri un o egwyddorion sylfaenol y proffesiwn fferylliaeth
- yn dangos na ellir dibynnu mwyach ar integriti'r cofrestrai

Dylai'r pwyllgor hefyd ystyried:

- a ellir mynd i'r afael â'r ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn
- a aed i'r afael â'r ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn
- a yw'n debygol y bydd yr ymddygiad a arweiniodd ar y gŵyn yn cael ei ailadrodd
- bod angen dod i gasgliad o amhariad er mwyn datgan a chynnal safonau cywir o ymddygiad a/neu roi hyder i'r cyhoedd yn y proffesiwn

[38] Erthygl 51 – Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[39] Atodlen 1 (5) (8)- Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[40] Rheol 5 - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

Wrth benderfynu a oes diffyg yn addasrwydd ymarfer person am nad oes ganddo neu ganddi wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg, gall y pwyllgor ystyried, ymhlith pethau eraill[41]:

- a ydy'r person dan sylw wedi methu â chydymffurfio gyda chyfarwyddyd, a roddwyd yn y rheolau, i sefyll arholiad neu asesiad arall ar eu gwybodaeth o'r Saesneg, neu
- a ydy'r person dan sylw wedi methu â rhoi tystiolaeth i'r cofrestrydd o ganlyniadau'r arholiad neu asesiad hwnnw

Mae'r penderfyniad ynglŷn ag amhariad yn fater i farn y pwyllgor. Rhaid i'r pwyllgor wneud ei benderfyniad ei hun ynglŷn ag amhariad hyd yn oed pan fydd y cofrestrai yn cyfaddef hynny. Dylai ei gwneud hi'n glir pa ffactorau y mae wedi eu hystyried wrth benderfynu ar amhariad.

Ffactorau allweddol i'w hystyried

3.12 Wrth benderfynu a yw prawf gwir obaith wedi ei fodloni, dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried:

- yr holl ddogfennau a roddir ger ei fron gan y cofrestrydd[42]
- amgylchiadau'r honiad
- ymddygiad, agwedd a gweithredoedd y cofrestrai
- y safonau rheoleiddio[43]
- argymhelliad y cofrestrydd[44] (nid yw'r pwyllgor ymchwilio wedi'i ymrwymo gan hyn)
- unrhyw sylwadau ysgrifenedig gan y cofrestrai dan sylw
- unrhyw sylwadau a gynigir gan glaf perthnasol neu'r person sy'n codi'r gŵyn
- unrhyw hanes cymhwyster i ymarfer perthnasol
- unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y CFfC i'r pwyllgorau statudol, yn cynnwys y canllaw hwn
- unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y CFfC

3.13 Gall ffactorau gwaethygu a lliniaru hefyd fod yn berthnasol i'r penderfyniad ar ran b y prawf gwir obaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol maent yn fwy perthnasol wrth ystyried a ddylai'r pwyllgor ymchwilio atgyfeirio'r mater i'r FtPC neu benderfynu ar ganlyniad arall.

[41] Rheol 24 (11a) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010
[42] Rheol 9(3) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010
[43] Erthygl 48 (1) – Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[44] Rheol 9(3)(a) (i) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

4. Penderfynu ar y canlyniad

4.1 Os bydd y pwyllgor ymchwilio yn penderfynu nad yw'r prawf gwir obaith wedi'i fodloni yna ni ddylai atgyfeirio'r honiad i FtPC[45]. Os yw'n penderfynu bod gwir obaith y caiff y ffeithiau honedig eu profi, ond nad oes gwir obaith o ddod o hyd i amhariad ar hyn o bryd, yna dylai fynd ymlaen i ystyried a yw cyngor neu rybudd yn briodol yn amgylchiadau'r achos.

4.2 Fodd bynnag, os yw'r pwyllgor ymchwilio yn penderfynu bod gwir obaith y bydd y ffeithiau honedig yn cael eu profi a gwir obaith y bydd ffeithiau o'r fath, pe byddent yn cael eu profi, yn golygu y bydd yr FtPC yn dod i benderfyniad bod cymhwyster y cofrestrai i ymarfer wedi ei amharu ar hyn o bryd dylai ystyried a ddylai atgyfeirio'r honiad i'r FtPC neu a fyddai canlyniad arall yn briodol[46]. Fel arfer bydd y pwyllgor ymchwilio yn atgyfeirio honiad o'r fath.

4.3 Wrth benderfynu a ddylid atgyfeirio i FtPC, rhaid i'r pwyllgor ymchwilio ystyried a yw atgyfeirio o fudd i'r cyhoedd ac a yw atgyfeiriad o'r fath yn ganlyniad cymesur. Dylai ystyried ffactorau lliniaru a gwaethygu perthnasol. Dylai hefyd gadw mewn cof y mathau hynny o honiadau y rhoddwyd canllawiau pellach ar eu cyfer yng Nghanllaw gwrandawiadau a sancsiynau y CFfC.

4.4 Os bydd amgylchiadau penodol achos yn golygu bod y pwyllgor ymchwilio yn dod i'r casgliad na ddylai gael ei ystyried gan yr FtPC, yna dylai'r pwyllgor ystyried canlyniadau eraill. Dylai esbonio'r rhesymeg sy'n sail i'w benderfyniad a pham fod canlyniad arall yn fwy priodol.

4.5 Os yw'r pwyllgor ymchwilio yn ansicr a yw'r prawf gwir obaith wedi'i fodloni, neu a ddylai atgyfeirio, dylai ffafrio atgyfeirio'r honiad(au) i'r FtPC.

Ffactorau allweddol i'w hystyried

4.6 Wrth benderfynu a ddylid atgyfeirio honiad i'r FtPC, neu a oes canlyniad arall yn fwy priodol, dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried:

- budd y cyhoedd
- unrhyw ffactorau gwaethygu neu liniaru
- amgylchiadau'r honiad ac a oes risg parhaus i aelodau o'r cyhoedd
- ymddygiad, agwedd a gweithredoedd y cofrestrai
- yr holl dystiolaeth a roddir ger ei fron gan y cofrestrydd[47]

[45] Rheol 9(7)(a) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010
[46] Erthygl 53(1) Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[47] Rheol 9(3) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

- y safonau rheoleiddio[48]
- argymhelliad y cofrestrydd[49] (nid yw'r pwyllgor ymchwilio wedi'i ymrwymo gan hyn)
- unrhyw sylwadau ysgrifenedig gan y cofrestrai dan sylw
- unrhyw sylwadau a gynigir gan glaf perthnasol neu'r person sy'n codi'r gŵyn
- unrhyw hanes cymhwyster i ymarfer perthnasol
- a fyddai canlyniad llai yn briodol
- adran ar *Mwy o ganllawiau ar feysydd penodol yng Nghanllaw gwneud penderfyniadau da: Gwrandawiadau cymhwyster i ymarfer a sancsiyna*
- unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y CFfC

Budd y cyhoedd

4.7 Wrth benderfynu ar ganlyniad, dylai'r pwyllgor ymchwilio roi pwysau priodol i fudd ehangach y cyhoedd[50]. Mae ystyriaethau budd y cyhoedd yn cynnwys:

- diogelu'r cyhoedd
- cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn
- cynnal safonau ymddygiad priodol

4.8 Wrth benderfynu a ddylid rhoi rhybudd neu gyngor, os yw'r PY yn penderfynu nad oes angen iddo gyfeirio cyhuddiad i'r PAY, dylai'r pwyllgor hefyd ystyried amcanion cyffredinol y CFfC[51].

Ffactorau gwaethygu a lliniaru

4.9 Ffactorau gwaethygu yw amgylchiadau'r achos sy'n gwneud yr hyn a ddigwyddodd yn fwy difrifol. Gallai ffactorau gwaethygu gynnwys, er enghraifft, lefel y niwed a achoswyd neu ddiffyg dirnadaeth a ddangoswyd gan y cofrestrai. Mae ffactorau lliniaru yn golygu'r gwrthwyneb i hyn. Ffactorau yw'r rhain sy'n gwneud beth ddigwyddodd yn llai difrifol. Gall y pwyllgor ymchwilio ystyried ffactorau gwaethygu a lliniaru perthnasol wrth asesu'r prawf gwir obaith neu wrth benderfynu ar ganlyniad (sy'n cynnwys a ddylai'r honiad gael ei atgyfeirio i FtPC).

4.10 Er bod ffactorau lliniaru a gwaethygu yn elfennau pwysig i'w hystyried, mae terfyn i faint all

[48] Erthygl 53(1) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[49] Rheol 9(3)(a)(i) - Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010
[50] Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth [2011] EWHC 927 (Gweinyddiaeth)
[51] Erthygl 53(2a) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010

y pwyllgor ymchwilio eu hystyried. Mae hyn oherwydd, yn wahanol i'r FtPC, ni all y pwyllgor ymchwilio brofi unrhyw dystiolaeth sydd gen ei fron. Felly, ni ddylai'r pwyllgor fel arfer ystyried unrhyw liniaru sy'n bersonol yn unig - er enghraifft, tystiolaeth cymeriad neu eirdaon proffesiynol. Dyma'r dystiolaeth y bydd yr FtPC fel arfer dim ond yn ei hystyried unwaith ei fod wedi dod i'r casgliad yr amherir ar gymhwyster cofrestrai i ymarfer.

4.11 Fodd bynnag, fel rhan o'i waith gwneud penderfyniadau, gall y pwyllgor ymchwilio roi ystyriaeth i unrhyw nodweddion yr achos a fyddai'n cael eu hystyried gan y FtPC fel naill ai rhai sy'n gwaethygu neu'n lliniaru. Gallai'r rhain gynnwys mynegiant o edifeirwch neu ymddiheuriad, a thystiolaeth o adferiad a wneir gan y cofrestrai.

Yr amgylchiadau

4.12 Gall amgylchiadau'r digwyddiad honedig fod yn berthnasol i'r penderfyniad ar ganlyniad. Dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried y goblygiadau neu'r risgiau i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i'r digwyddiad. Efallai y bydd hefyd am ystyried, er enghraifft:

- a oedd y digwyddiad yn un 'unwaith yn unig' neu'n un a ailadroddwyd
- lleoliad y digwyddiad
- a oes hanes perthnasol o bryderon ynglŷn â chymhwyster i ymarfer

4.13 Dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried a oedd y digwyddiad dan sylw:

- yn gamddefnydd neu dor-ymddiriedaeth
- yn gamddefnydd o'i safle proffesiynol gan y cofrestrai
- wedi rhoi unrhyw fantais ariannol i'r cofrestrai

4.14 Dylai hefyd ystyried unrhyw gasgliadau cymhwyster i ymarfer blaenorol yn ymwneud â'r cofrestrai sy'n berthnasol i'r achos. Gallai ffactorau eraill gynnwys a oedd y cofrestrai dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, neu a oedd niwed neu berygl o niwed i glaf neu berson arall a oedd yn bresennol.

Ymddygiad ac agwedd

4.15 Mae tystiolaeth ynghylch ymddygiad ac agwedd yr aelod cofrestredig cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dan sylw hefyd yn bwysig - cydweithredu gyda'r ymchwiliad, er enghraifft, neu fod yn agored gyda chleifion a'r cyhoedd pan fo pethau'n mynd o chwith. Efallai y bydd y PY am ystyried a ydy'r aelod cofrestredig wedi:

- dangos edifeirwch neu wneud yn iawn am bethau - gan gynnwys bod yn agored ac ymddiheuro
- arddangos mewnwelediad i'r mater dan sylw a'r camau gweithredu a wnaed i sicrhau nad yw'n cael ei ailadrodd

- ymgymryd â hyfforddiant pellach

Gweithredoedd yr aelod cofrestredig

4.16 Wrth benderfynu ar ganlyniad, mae'n bwysig bod y pwyllgor yn ystyried gweithredoedd yr aelod cofrestredig. Mae'r ffactorau y bydd y pwyllgor efallai am eu hystyried yn cynnwys a oedd:

- yr ymddygiad wedi ei gynllunio o flaen llaw ai peidio
- yr aelod cofrestredig wedi ceisio celu'r hyn a wnaeth o'i le
- yr ymddygiad yn gyson neu wedi ei ailadrodd dros gyfnod
- yr aelod cofrestredig wedi manteisio ar berson agored i niwed

5. Canlyniadau sydd ar gael

5.1 Mae gan y pwyllgor ymchwilio bŵer i benderfynu ar ystod o ganlyniadau ar gyfer unrhyw achos penodol. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau sydd ar gael, a'r amgylchiadau y dylai'r pwyllgor ymchwilio eu hystyried wrth benderfynu ar y canlyniad mwyaf priodol a chymesur.

5.2 Gall pwyllgor ymchwilio benderfynu ar unrhyw rai o'r canlyniadau isod ar ôl iddo ystyried y prawf gwir obaith. Mae'r tabl yn cynnwys manylion pa ganlyniadau y gellir eu dangos ar y gofrestr ar-lein. **Dywed ein polisi cyhoeddi a datgelu** am ba hyd y cânt eu dangos ar y gofrestr.

Dim gweithredu

Effaith ar gofrestriad	Amgylchiadau i'w hystyried wrth benderfynu ar y penderfyniad hwn
Ni fydd gweithredu, caiff yr achos ei gau ac ni fydd cofnod yn cael ei gofnodi ar y gofrestr.	Mae'r pwyllgor ymchwilio yn fodlon nad oes gwir obaith o brofi'r honiadau ffeithiol a dim gwir obaith o ganfod yr amharwyd ar gymhwyster y cofrestrai i ymarfer, ac nad oes angen canlyniad arall. Nid oes cyngor y dylid ei gynnig i'r cofrestrai.

Cyngor

Effaith ar gofrestriad	Amgylchiadau i'w hystyried wrth benderfynu ar y penderfyniad hwn
Mae'r pwyllgor ymchwilio yn rhoi cyngor i'r cofrestrai ynglŷn ag unrhyw fater y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol, er mwyn gwneud yn siŵr y bydd yn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol priodol. Ni chaiff ei gofnodi ar y gofrestr. Nid oes cyfyngiad ar gofrestriad. Gall y pwyllgor ymchwilio hefyd roi cyngor i unrhyw berson arall sy'n rhan yn yr ymchwiliad.	Mae'r pwyllgor ymchwilio yn fodlon bod gwir obaith o brofi'r honiadau ffeithiol ond nad yw'r honiadau angen cael eu hystyried gan FtPC. Er nad amherir ar gymhwyster i ymarfer, efallai y bydd llythyr o gyngor ynglŷn ag ymddygiad neu berfformiad y cofrestrai yn y dyfodol yn briodol. Dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried a all cyngor penodol ddelio â'r mater. Efallai y bydd cyngor yn briodol os nad oes ffactorau gwaethygu neu os yw'r cofrestrai wedi dangos dirnadaeth ac wedi cymryd camau ei hun i gywiro'r camwedd. Gellir cynnig cyngor i gofrestrai ynglŷn â'l ymddygiad yn y dyfodol. Os bydd y pwyllgor ymchwilio yn penderfynu bod cyngor yn briodol dylai nodi'n glir beth ddylai'r cyngor hwnnw fod. Dylai lunio rhan o'i resymau ynglŷn â'r penderfyniad, a chael ei gynnwys yn y llythyr i'r cofrestrai. Dylai unrhyw gyngor hefyd fod yn berthnasol i'r honiadau a gaiff eu hystyried gan y pwyllgor ymchwilio. Gellir anfon llythyr o gyngor at unrhyw berson arall sy'n rhan yn yr ymchwiliad – er enghraifft, fferyllydd uwcharolygol. Wrth ystyried a ddylid cyflwyno llythyr o gyngor I unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad, megis y fferyllydd uwcharolygol dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried yn ofalus y derbynnydd, a manteision posibl y cyngor, a gwneud yn siŵr ei fod wedi ei deilwra I ffeithiau'r achos y mae'n ei ystyried. Wrth benderfynu a yw rhybudd neu gyngor yn briodol, rhaid i'r pwyllgor ymchwilio roi ystyriaeth i amcan cyffredinol y Cyngor.

Mawrth 2017

Rhybudd

Effaith ar gofrestriad	Amgylchiadau i'w hystyried wrth benderfynu ar y penderfyniad hwn
Mae'r pwyllgor ymchwilio yn rhoi rhybudd i'r cofrestrai. Nid oes cyfyngiadau ar allu'r cofrestrai i ymarfer. Caiff manylion y rhybudd hwn eu cofnodi ar y gofrestr. Mae gan gofrestrai yr hawl i ofyn i gael ei atgyfeirio i FtPC yn hytrach na chael rhybudd gan y pwyllgor ymchwilio. Os gwneir cais am atgyfeiriad, rhaid i'r pwyllgor ymchwilio atgyfeirio[52].	Mae'r pwyllgor ymchwilio yn fodlon bod gwir obaith o brofi'r honiadau ffeithiol, ond nid oes yn rhaid i'r i FtPC ystyried yr honiadau. Mae'r pwyllgor ymchwilio yn fodlon na ellir mynd i'r afael â'r ymddygiad gyda chyngor yn unig, ond bod angen gweithredu mwy difrifol. Mae angen dangos I gofrestrai, ac yn fwy eang i'r proffesiwn a'r cyhoedd, bod yr ymddygiad wedi disgyn yn is na safonau derbyniol. Ni fydd rhybudd yn briodol os oes perygl i'r cyhoedd neu gleifion sy'n golygu bod yn rhaid cyfyngu ar gofrestriad y cofrestrai. Hefyd, ni fydd rhybuddion ar y cyfan yn briodol os yw'r honiad yn ymwneud yn unig neu'n bennaf ag iechyd meddyliol neu gorfforol y cofrestrai.

[52] Erthygl 53 (3) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

Ymgymeriadau

Effaith ar gofrestriad	Amgylchiadau i'w hystyried wrth benderfynu ar y penderfyniad hwn
Gall ymgymeriadau[53] gynnwys cyfyngiadau ar ymarfer neu ymddygiad neu ymrwymiad i gael goruchwyliaeth neu ailhyfforddiant. Mae ymgymeriadau yn caniatáu i gofrestrai barhau i ymarfer, tra'n cywiro unrhyw ddiffygion yn ei ymarfer a delio ag unrhyw faterion iechyd. Gall ymgymeriadau gael eu gosod ar gyfer hyd at ddwy flynedd. Caiff y ffaith bod ymrwymiad wedi ei gyflwyni ei gofnodi ar y gofrestr.	Mae'r pwyllgor ymchwilio yn fodlon bod gwir obaith o brofi'r honiadau ffeithiol, caiff amhariad ei gyfaddef neu y gellir ei ganfod mewn FtPC, ond nad oes angen i'r honiadau gael eu hystyried gan FtPC. Mae gan y pwyllgor ymchwilio y grym, os bydd y cofrestrai'n cyfaddef yr amharwyd ar ei gymhwyster I ymarfer, i gytuno ar ymrwymiadau[54]. Mae'r pwyllgor ymchwilio yn fodlon y bydd y cofrestrai'n cydymffurfio â'r ymgymeriadau - er enghraifft, oherwydd bod ganddo wir ddirnadaeth o'i ymddygiad a'r potensial ar gyfer adferiad. Gall ymgymeriadau fod yn briodol os oes elfennau yn ymarfer y cofrestrai y gellir eu nodi fel rhai sydd angen eu hadolygu, eu hasesu neu eu hailhyfforddi. Gallant hefyd fod yn briodol os oes tystiolaeth bod gan y cofrestrai ddigon o ddirnadaeth o unrhyw broblemau iechyd a'i fod yn barod i gytuno i gadw at yr ymgymeriadau sy'n ymwneud â goruchwyliaeth a thriniaeth feddygol. Ni fyddant yn briodol os rhoddir cleifion mewn perygl, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i gofrestriad yn parhau gydag ymgymeriadau. Dylai ymgymeriadau, a'r rhesymau drostynt, gael eu gwneud yn glir fel pan gynhelir adolygiad bydd y pwyllgor ymchwilio (a'r CFfC) yn gallu gwerthuso a yw'r nodau wedi eu cyflawni. Os bydd angen iddynt fod ar waith am gyfnod hwy na dwy flynedd, er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried atgyfeirio'r achos i FtPC.

[53] Cymerir yr ymgymeriadau o 'fanc' ymgymeriadau sydd wedi'i gyhoeddi. **www.pharmacyregulation.org/sites/default/good_decision_making_undertakings_bank_january_2016.pdf**

[54] Rheol 10 – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

Atgyfeiriad i FtPC

Effaith ar gofrestriad	Amgylchiadau i'w hystyried wrth benderfynu ar y penderfyniad hwn
Nid oes cyfyngiad ar unwaith ar gofrestriad cofrestrai a chaiff yr achos ei ystyried gan FtPC sydd ag ystod o ganlyniadau y gall eu defnyddio[55].	Mae'r pwyllgor ymchwilio yn fodlon bod dau ran y prawf gwir obaith wedi'u bodloni ac y dylai'r honiad(au) gael eu hystyried gan FtPC. Wrth benderfynu ar atgyfeiriad dylai'r pwyllgor ymchwilio fod yn ymwybodol o ganllawiau a roddir i'r FtPC. Dylai'r pwyllgor ymchwilio ystyried a yw gorchymyn dros dro yn briodol o dan amgylchiadau'r achos (gellir cael rhagor o wybodaeth am orchmynion dros dro ym mharagraff 2.22).

Gweithdrefnau gweinyddol

5.3 Os yw'r cofrestrydd yn gwneud argymhelliad, ym mhob achos gwahoddir y cofrestrai i wneud sylwadau ysgrifenedig i'r pwyllgor ymchwilio ynglŷn â hwn o fewn 21 diwrnod, a chyn bod y pwyllgor yn cynnal ei gyfarfod. Os yw'r pwyllgor ymchwilio wedi penderfynu ar ganlyniad sy'n cynnwys ymgymeriad neu rybuddion, mae gweithdrefnau pwysig i'w dilyn er mwyn sicrhau bod penderfyniad a wneir gan y pwyllgor ymchwilio yn ffurfiol ac y caiff ei gofnodi. Mae'r rhain wedi eu nodi isod.

Rhoi rhybudd

5.4 Os yw'r pwyllgor ymchwilio yn penderfynu mai rhybudd yw'r canlyniad priodol, a'i fod wedi ei argymell gan y cofrestrydd, nid oes angen gohirio'r cyfarfod er mwyn gwahodd sylwadau gan y cofrestrai ynglŷn â'r rhybudd.

5.5 Os na wnaed argymhelliad gan y cofrestrydd - neu os yw'r pwyllgor ymchwilio yn anghytuno gyda'r argymhelliad a wnaed, ond y bydd yn penderfynu mai rhybudd yw'r canlyniad priodol - rhaid i'r pwyllgor ymchwilio ohirio'r cyfarfod er mwyn caniatáu i'r cofrestrai wneud sylwadau ysgrifenedig penodol ynglŷn â'r rhybudd hwnnw[56].

5.6 Pan ddaw'r achos yn ôl i'r pwyllgor ymchwilio rhaid iddo roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed – a'r canllaw hwn – i benderfynu rhoi rhybudd neu beidio. Gall y pwyllgor ymchwilio benderfynu y gellir rhoi rhybudd heb gydsyniad y cofrestrai.

[55] Gweler Gwneud penderfyniadau da: Canllaw gwrandawiadau cymhwyster i ymarfer a sancsiynau
[56] Dim hwyrach na 21 diwrnod wedi dyddiad y llythyr yn gofyn am sylwadau

Cytuno ar ymgymeriadau

5.7 Unwaith y bydd y pwyllgor ymchwilio yn gwneud penderfyniad i gynnig ymgymeriadau, bydd ysgrifennydd y pwyllgor ymchwilio yn ysgrifennu at y cofrestrai o fewn 10 diwrnod. Bydd yn anfon copi o'r ymgymeriadau a'r rhesymau dros eu cynnig ato. Os bydd y cofrestrai'n cytuno i dderbyn yr ymgymeriadau, rhaid iddo arwyddo'r ffurflen ymgymeriadau a'i hanfon yn ôl at ysgrifennydd y pwyllgor ymchwilio o fewn 14 diwrnod. Os nad yw'n derbyn neu'n cydymffurfio â'r ymgymeriadau yna gellir atgyfeirio'r achos i bwyllgor cymhwyster i ymarfer.

5.8 Dylid ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r cofrestrai dalu cost cydymffurfio â'i ymgymeriadau.

5.9 Gall ymgymeriadau gael eu hadolygu gan bwyllgor ymchwilio cyn diwedd y cyfnod y gosodwyd hwy ar eu cyfer yn wreiddiol. Gall y wybodaeth a ddarperir gan y CFfC ddangos:

- bod y cofrestrai wedi cydymffurfio â'r ymgymeriadau a bod ei iechyd a'i berfformiad wedi gwella
- ei fod wedi torri ei ymgymeriadau, neu
- bod gan y cyngor bryderon ynglŷn â chymhwyster y cofrestrai i ymarfer

5.10 Os bydd y pwyllgor ymchwilio yn derbyn gwybodaeth na chydymffurfiwyd ag ymgymeriadau, gall[57]:

- atgyfeirio'r honiad gwreiddiol i'r FtPC, a thrin y methiant i gydymffurfio â'r ymgymeriadau fel honiad ar wahân o gamymddwyn ac atgyfeirio'r honiad hwnnw i'r FtPC, neu
- benderfynu peidio ag atgyfeirio'r honiad gwreiddiol i'r FtPC, ond trin y methiant i gydymffurfio â'r ymgymeriadau fel honiad ar wahân o gamymddwyn ac atgyfeirio'r honiad hwnnw i'r FtPC

5.11 Os bydd y pwyllgor ymchwilio yn derbyn gwybodaeth nad yw ymgymeriadau efallai'n briodol mwyach, gall[58]:

- gyda chytundeb y cofrestrai, amrywio'r ymgymeriadau hynny, neu
- decide that those undertakings no longer apply
- benderfynu nad yw'r ymgymeriadau hynny yn gymwys mwyach

[57] Rheol 10(2) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

[58] Rheol 10(3) – Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cymhwyster i Ymarfer ac Anghymhwyso ac ati) Gorchymyn y Cyngor 2010

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org